**COFNODION PWYLLGOR Y TY**

**Dyddiad:** 30 Ionawr 2003

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**
Y Llywydd
Y Dirprwy Lywydd
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Jocelyn Davies, AC Plaid Cymru
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory AC Llafur
Carwyn Jones, AC Llafur

**Swyddogion:**
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Clerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfathrebu
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad
Wayne Cowley, Y Swyddfa Ffioedd
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, YP y Dirprwy Lywydd
Richard Wilson, Prif Syrfëwr Ystadau a Phennaeth Tîm Prosiect Yr Adeilad Newydd (rhan o'r cyfarfod)
Bryan Mitchell, Pennaeth y Grwp Rheoli Busnes a Gwybodaeth (rhan o'r cyfarfod)
Nigel Finlayson, Pennaeth yr Is-adran Busnes a Systemau Gwybodaeth (rhan o'r cyfarfod)
Marie Knox, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau (rhan o'r cyfarfod)

**Arall:**
Dermot O'Reilly, Schal International Management Cyf (rhan o'r cyfarfod)

## 1 Ethol Cadeirydd

Gwahoddodd Clerc y Pwyllgor enwebiadau ar gyfer ethol Cadeirydd y Pwyllgor.

Cafodd y Dirprwy Lywydd ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2 Papurau ar faterion i'w penderfynu yn y cyfarfod cyntaf HC-01-03-01

Bu'r Aelodau'n ystyried a ddylai'r Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat. Ar ôl trafod y mater, cytunodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor barhau

i gwrdd mewn sesiynau preifat ond bod modd cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus os cytunir ar hynny. Fodd bynnag, byddai'r mater hwn yn cael ei ailystyried ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai.

Cytunodd y Pwyllgor i ailsefydlu'r is-grwpiau Celfyddydau, Arlwyo a TGCh i adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor y Ty.

Cytunwyd y byddai cofnodion y Pwyllgor yn cael eu cymeradwyo ar ffurf ddrafft yn gyntaf gan y Cadeirydd ac yna'n cael eu hanfon at yr Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor i'w cadarnhau cyn eu cyhoeddi.

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y ddirprwyaeth ffurfiol a oedd yn ofynnol i staff y Cynulliad. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur ar gyfer y cyfarfod nesaf a fyddai'n rhoi manylion canlyniad y ddirprwyaeth hon.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

Gan gyfeirio at Reol Sefydlog 36.14, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor baratoi Cod Ymddygiad, gofynnodd y Pwyllgor i Dianne Bevan baratoi Cod Ymddygiad drafft i'w ddosbarthu i'r Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor. Ar ôl gwneud hynny, dylid cyflwyno papur yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

Cytunodd y Pwyllgor i symud yr eitem ar y newyddion diweddaraf ar Brosiect Adeilad Newydd y Cynulliad ymlaen ar yr agenda. Gadawodd William Graham y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**<u>Y Newyddion Diweddaraf ar Brosiect Adeilad Newydd y Cynulliad</u>**

Diolchodd y Cadeirydd i Richard Wilson a Dermot O'Reilly am fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Taylor Woodrow Consortium oedd y bidiwr dewisol i baratoi contract pris penodedig dylunio ac adeiladu.

Dywedodd Richard Wilson y byddai'r tîm prosiect mewn sefyllfa i roi syniad clir o gost, ansawdd ac amser cwblhau'r prosiect erbyn canol Mehefin.

Edrychodd y Pwyllgor ar ddelweddau 'photo-realistic' o'r dyluniad, a oedd hefyd ar gael ar wefan Adeilad Newydd y Cynulliad. Nid hwn oedd y dyluniad terfynol.

Bu Aelodau'n trafod gwahanol faterion gan gynnwys y cysylltiad rhwng Adeilad y Cynulliad a'r Adeilad Newydd, materion Diogelwch a mynediad i'r adeilad ar gyfer pobl anabl.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Tîm Prosiect roi gwybod i Bwyllgor y Ty pan fydd y materion sy'n gysylltiedig â'r dyluniad yn dod yn gliriach, gan roi

sylw arbennig i'r materion a godwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod ac mewn cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Ty ar 17 Medi 2002. Dywedodd Richard Wilson y byddai'n gallu rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sylweddol o fewn y 4-6 wythnos nesaf.

Dychwelodd William Graham i'r Pwyllgor.

## 3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi

Cyhoeddwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2002 ar 8 Ionawr 2003.

### 3.1 Rhestr Weithredu HC-01-03-02

Cynllun Iechyd Galwedigaethol Swyddfa'r Llywydd

Dywedodd John Bowley fod Uwch Gynghorydd Iechyd Galwedigaethol y Cynulliad ar gael ar gyfer staff, Aelodau a staff cymorth yr Aelodau yn Swyddfa'r Llywydd un prynhawn bob wythnos. Byddai'n rhaid asesu ac ystyried faint o alw sydd am y gwasanaeth cyn penderfynu ar gael Cynghorydd Iechyd Galwedigaethol parhaol yn Swyddfa'r Llywydd.

Gofynnodd yr Aelodau fod y gwasanaeth yn cael ei hysbysebu.

**Gweithredu: John Bowley**

Canlyniad Arolwg Gofal Plant Holl Staff Parc Cathays

O ran y system arfaethedig o roi talebau am ofal plant i staff, dywedodd John Bowley fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i aros am gyngor oddi wrth swyddfa Cyllid y Wlad ar faterion sy'n ymwneud â threth.

Nodwyd bod canlyniad arolwg Swyddfa'r Llywydd o'r Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff Swyddfa'r Llywydd yn dangos nad oedd gan bobl lawer o ddiddordeb mewn meithrinfa yn Swyddfa'r Llywydd.

Gofynnodd Aelodau a oedd lle am feithrinfa yn adeilad newydd y Cynulliad gan y byddai o fantais i'r staff a'r Aelodau yn ogystal â'r cyhoedd a fyddai'n ymweld. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr at y Gweinidog dros Gyllid yn awgrymu bod ystafell yn cael ei neilltuo yn yr adeilad newydd ar gyfer meithrinfa.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Cytunodd Aelodau hefyd y dylid paratoi arolwg newydd ar ofal plant a'i ddosbarthu ar ôl yr etholiad ym Mai.

**Gweithredu: John Bowley**

Deddfwriaeth Diogelu Data

Cytunwyd bod angen cadarnhau'r canllawiau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd Paul Silk fod y Cynulliad yn cydweithio'n glòs â Thy'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi ar y mater hwn. Roedd Swyddfa'r Llywydd hefyd wrthi'n recriwtio Swyddog Diogelu Data.

Byddai David Lambert yn rhoi cyngor i Grwpiau ac Aelodau; cytunwyd y byddai chwipiau pleidiau'n cael eu hysbysu am hyn.

**Gweithredu: David Lambert**

Dileu'r eitem o'r rhestr weithredu

Darparu ystafell ysmygu yng Nglanfa'r Cynulliad

Dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad ar ddarparu ystafell ysmygu yng Nglanfa'r Cynulliad ar gael yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd / Nerys Evans**

Yr Is-grwp Arlwyo

Nodwyd y byddai'r Is-grwp Arlwyo yn cyfarfod yn y dyfodol.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Roedd holiadur wedi'i ddosbarthu i Aelodau am y newid i gyfraddau sydd wedi'u cronni. Roedd yr atebion yn cael eu coladu.

Mynediad i'r Wasg i Ystafell Dê'r Aelodau.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â chaniatáu mynediad i'r wasg i Ystafell Dê'r Aelodau. Roedd yr Aelodau'n hapus i barhau i ganiatau mynediad iddynt.

Mân Waith Adeiladu

Dywedodd Nerys Evans gwhaoddiad i dendro am waith sydd angen ei wneud yn Adeilad y Cynulliad a Glanfa'r Cynulliad er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 sy'n dod i rym yn 2004.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Digwyddiad yn y Siambr

Dywedodd Gwen Parry fod llythr wedi cael ei anfon i longyfarch y darlledwyr.

Cyflwyno Gwisg Gorfforaethol ar gyfer Staff sy'n dod wyneb yn wyneb â chwsmeriaid

Dywedodd Gwen Parry fod cais wedi'i gymeradwyo gan yr is-adran gaffael i brynu gwisg gorfforaethol, a'u bod yn mynd i ymgynghori â staff. Gofynnodd yr Aelodau fod y cynllun llwyddiannus yn cael ei anfon atynt y tu allan i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Cynrychiolaeth o Swyddfa'r Llywydd ym Mrwsel

Nodwyd bod hyn ar y gweill. Roedd Gwen Parry'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros hyn i Marie Knox.

**Gweithredu: Marie Knox**

Clyw-gynadledda

Cadarnhaodd Gwen Parry fod yr offer clyw-gynadledda wedi'i brynu a'i fod yn cael ei brofi ym mhob ystafell gynadledda cyn rhoi gwybod i bobl am hyn.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Etholiad 2003: Materion yn ymwneud â Chyflog a lwfansau'r Aelodau

Cadarnhaodd Wayne Cowley fod cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes er mwyn ystyried newidiadau i'r Penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ddiwedd Chwefror.

Y Newyddion Diweddaraf am Raglen Merlin

Croesawodd y Cadeirydd Bryan Mitchell a Nigel Finlayson i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am ddod.

Dywedodd Bryan Mitchell y byddai'r Aelod Cynulliad a Bwrdd Prosiect Swyddfa'r Llywydd yn darparu adborth uniongyrchol ar holl anghenion a gofynion y rhaglen. Câi unrhyw faterion a fyddai'n dod i'r amlwg eu trin fel mater o flaenoriaeth.

Rhoddodd Nigel Finlayson y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt rhaglen Merlin. Ar ôl gwerthuso'r chwe chyflenwr a gyrhaeddodd y rhestr hir ddechrau mis Rhagfyr, roedd tri wedi cyrraedd y rhestr fer. Cam nesaf y broses gaffael oedd y Cyfnod Astudio, a fyddai'n cynnwys cydweithio â chyflenwyr a chael gafael ar fewnbwn yr holl ddefnyddwyr. Byddai hefyd yn gyfle i ddeall y cyflenwyr unigol yn well ac i weld beth yw eu hymateb i rai materion. Byddai trafodaethau am y contract yn dechrau tua diwedd Mawrth.

Dywedodd Nigel Finlayson mai'r meysydd a oedd yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd oedd gwella cyflymder y cysylltiad ar draws y rhwydwaith, yn arbennig ar gyfer defnyddio'r system o bell ac mewn swyddfeydd yn yr etholaethau. Roedd yr Aelodau'n cefnogi hyn yn llawn.

Contract fframwaith fyddai'r contract newydd, a fyddai'n caniatáu llawer mwy o hyblygrwydd o ran caffael gwasanaethau drwy gydol cyfnod y contract.

Dywedodd y Llywydd ei fod yn falch gyda'r cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn. Pwysleisiodd fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n arwain y ffordd ym maes e-ddemocratiaeth ac y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal y statws hwn.

Dywedodd Bryan Mitchell y byddai'n cyfleu'r neges yn glir i'r cyflenwyr.

Nododd yr Aelodau bapur HC-01-03-13 ynghylch Aelodaeth arfaethedig a Chylch Gwaith Aelodau'r Cynulliad a bwrdd prosiect Merlin swyddfa'r Llywydd. Cymeradwyodd yr Aelodau'r cynigion a chytuno y byddai Cadeirydd yr Is-grwp TGCh, neu berson sy'n cael ei enwebu gan y Cadeirydd, yn aelod o'r bwrdd prosiect ac yn cymryd rhan lawn yn y broses.

## 4 Camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd yr Is-grwp

Argymhellion Is-grwp y Celfyddydau HC-01-03-03

Gofynnodd y Cadeirydd fod cofnodion llawn y cyfarfod yn cael eu cylchredeg yn y dyfodol.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Cytunwyd ar argymhellion Is-grwp y Celfyddydau.

Cofnodion yr Is-grwp TG HC-01-03-04

Dywedodd Janice Gregory ei bod hi'n dal i gael problemau wrth geisio defnyddio gwefan y Cynulliad. Dywedodd Gwen Parry na fyddai modd datrys y broblem tra bod gwahanol wefanau'n cael eu sefydlu ar gyfer y Llywodraeth a'r Cynulliad.

Dywedodd yr Aelodau nad oeddent yn argyhoeddiedig bod materion sy'n ymwneud â newid parth wedi'u datrys a gofynnwyd i Gadeirydd yr Is-grwp TGCh ystyried y mater.

Nododd Pwyllgor y Ty y sylwadau ynghylch treialu desg gymorth TG y tu allan i oriau gwaith. Nid oedd y Pwyllgor wedi cytuno i ddod â'r treialon i ben gan fod angen ymchwilio ymhellach i'r cwestiwn a fyddai modd i bobl ar y ddesg gymorth gael mynediad i gyfrifiaduron yr Aelodau. Daeth y treialon i ben ar ddyddiad diweddarach.

Nododd yr Aelodau y newyddion diweddaraf ar yr arbrawf gweddarlledu. Dywedodd Gwen Parry y byddai'n paratoi papur ar werthuso'r arbrawf yng Nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Ty.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Dywedodd Carwyn Jones nad oedd yn credu mai arafwch y rhwydwaith oedd yn gyfrifol am yr amser hir yr oedd hi'n ei gymryd i lwytho i lawr. Dywedodd fod y cyfrifiaduron yn araf hyd yn oed pan nad oeddent wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith.

Byddai'r trafodaethau'n cael eu hadrodd i'r Is-grwp TGCh.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Derbyniodd yr Aelodau'r cofnodion.

Y diweddaraf gan SBS ar faterion TGCh HC-01-03-05

Nodwyd y papur. Ond, dywedodd Aelodau nad oedd y broblem gyda ffeiliau sydd ynghlwm wrth e-bost allanol wedi'i datrys ar unwaith ond fod hynny wedi cymryd bron wythnos.

Cofnodion EFLG 29 Tachwedd 2002 HC-01-03-06

Cytunodd yr Aelodau fod safon cyffredinol yr arlwyo wedi gwella. Fodd bynnag, roedd prisiau'r bwydlenni lletygarwch wedi codi. Dywedodd Nerys Evans ei bod ar hyn o bryd yn dadansoddi prisiau'n gyffredinol. Byddai'n nodi sylwadau'r Aelodau.

Byddai Nerys Evans yn rhoi gwybod i'r rheolwr arlwyo am sylwadau penodol Aelodau.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Derbyniwyd y cofnodion. Nododd yr Aelodau y byddai'r Is-grwp Arlwyo yn cyfarfod yn y dyfodol agos. Byddai'r cwestiwn o fwydlenni lletygarwch yn cael ei nodi fel eitem ar yr agenda.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Cofnodion EFLG 7 Ionawr 2003 HC-01-03-07

Derbyniwyd y cofnodion.

## 5 Adroddiadau Clerc y Cynulliad

Papur ar berfformiad yn erbyn targedau HC-01-03-08

Rhoddodd Paul Silk wybod i'r Aelodau y byddai'r dangosyddion perffomiad yn cael eu hadolygu yn y dyfodol i sicrhau bod y wybodaeth

fwyaf perthnasol a defnyddiol yn cael ei chasglu.

Cytunwyd i anfon yr eglurhad am bapurau pwyllgor hwyr at Banel y Cadeiryddion.

Tynnodd Paul Silk sylw at berfformiad y Gwasanaeth Cyfieithu. Roedd perfformiad yn parhau i wella a glynwyd wrth 90% o'r terfynau amser.

Papur ar Gyllideb Swyddfa'r Llywydd HC-01-03-09

Nodwyd y papur.

## 6 Adrannau Swyddfa'r Llywydd - Adroddiadau/Materion

### 6.1 Rheoli Swyddfa/Cyfleusterau

Cynigion i Wella Diogelwch Corfforol HC-01-03-10

Ystyriodd yr Aelodau'r cynigion yn HC-01-03-10.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r mesurau diogelwch gorau posibl fod mewn grym yn mynedfa adeilad y Cynulliad. Cytunodd yr Aelodau i barhau gyda'r cynnig ar gyfer y brif fynedfa ar sail y cynnig i osod giatiau a fyddai'n agor drwy ddefnyddio cardiau adnabod.

Dywedodd Nerys Evans y byddai'r dderbynfa bresennol yn cael ei symud a'i gwella fel rhan o'r prosiect. Gofynnodd y Cadeirydd am gael gwybod yn gyson am gost y prosiect.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Cytunodd Aelodau i fwrw ymlaen â'r gwaith o wella'r dderbynfa. Cytunwyd nad oedd angen gwella diogelwch yn y Siambr na'r Ystafelloedd Pwyllgora.

Defnyddio Adeilad Glanfa'r Cynulliad ar gyfer digwyddiadau.

Cytunodd yr Aelodau y byddai'r un canllawiau ag sy'n bodoli ar gyfer defnyddio Ystafelloedd Cynadledda, Ystafelloedd Cyfarfod a Phwyllgora Adeilad y Cynulliad a'r Neuadd yn gymwys ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a fyddai'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Ymwelwyr Glanfa'r Cynulliad.

Cytunodd Aelodau y dylai Aelodau'r Cynulliad neu'r cyrff allanol a fyddai'n noddi'r achlysur ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol am ddefnyddio Canolfan Ymwelwyr Glanfa'r Cynulliad.

Dywedodd Janice Gregory fod Canolfan Ymwelwyr Glanfa'r Cynulliad yn boblogaidd iawn. Cymeradwyodd y staff addysg am eu gwaith ardderchog a dywedodd y dylai'r gwasanaeth gael ei hyrwyddo ymhellach. Dywedodd Gwen Parry fod 75% o'r amser a oedd wedi'i neillto ar gyfer ymweliadau

gan ysgolion yn nhymor yr haf eisoes yn llawn. Roedd yr amser y gellir ei neilltuo'n cael ei gyfyngu gan faterion staffio a'r lle a oedd ar gael.

Gofynnodd yr Aelodau i Gwen Parry barartoi papur ar ba mor ymarferol oedd agor Glanfa'r Cynulliad ar benwythnosau yn ystod y gaeaf.

**Gweithredu: Gwen Parry**

<u>Iechyd a Diogelwch : Asesiadau o Offer Sgrin Arddangos HC-01-03-12</u>

Dywedodd John Bowley fod yr Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch wedi argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal asesiadau o Offer Sgrin Arddangos (DSE) ar gyfer yr holl staff.

Roedd Swyddfa'r Llywydd wedi rhoi contract i sefydliad arbenigol gynnal yr asesiadau ar gyfer staff Swyddfa'r Llywydd. Roedd rhain wedi cael eu cwblhau. Roedd John Bowley yn cynnig cyfle i'r Aelodau gytuno iddo drefnu bod yr un cwmni'n dod yn ôl i gynnal asesiadau DSE ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth. Er mai Swyddfa'r Llywydd oedd yn darparu celfi, llety ac offer a oedd yn cael eu defnyddio gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn Adeilad y Cynulliad, nodwyd mai'r Aelodau, fel y cyflogwyr, oedd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch eu staff eu hunain.

Cytunodd Aelodau i barhau ar y sail hon.

**Gweithredu: John Bowley**

**6.2 Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad**

<u>Cymhorthdal teithio i ysgolion y tu allan i Gaerdydd<br>HC-01-03-14</u>

Roedd Aelodau Pwyllgor y Ty wedi mynegi pryder mewn cyfarfod blaenorol fod costau teithio uchel yn rhwystro ysgolion o'r tu allan i Gaerdydd rhag ymweld â'r Cynulliad. Roedd swyddogion wedi archwilio cyfleoedd i roi cymhorthdal ar gyfer costau teithio.

Dywedodd Jocelyn Davies fod pellter ac amser hefyd yn ffatorau dylanwadol.

Croesawodd Aelodau'r cynllun arbrofol gan argymell bwrw ymlaen ar sail cyfradd cymhorthdal o £1 y filltir, yn seiliedig ar gynllun yr RAC, i fod ar gael i ysgolion sydd mewn etholaethau lle caiff yr Aaelodau hawlio cyfradd uwch y lwfans cost ychwanegol. Byddai ysgolion yn gyfrifol am dalu eu hanfonebau'u hunain i gwmnïau teithio. Byddai cymhorthdal yn cael ei dalu yn ôl-weithredol.

Cynigiodd Gwen Parry fod y cynllun peilot yn cael ei gynnal yn nhymor yr hydref gan nad oedd llawer o le ar ôl ar gyfer ymweliadau yn nhymor yr haf. Byddai hyn hefyd yn caniatau digon o amser i hysbysebu'r cynllun peilot. Cytunodd Aelodau i barhau ar y sail hon.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Y diweddaraf ar Gysylltiadau Tramor ac Allanol HC-01-03-15

Nododd yr Aelodau y newyddion diweddaraf ar gysylltiadau tramor ac allanol.

**6.3 Ysgrifenyddiaeth y Siambr a'r Pwyllgorau**

Datganiad Dwyieithrwydd Swyddfa'r Llywydd HC-01-03-16

Diolchodd y Cadeirydd i Marie Knox am fod yn bresennol.

Nododd yr Aelodau mai cynllun ar gyfer Swyddfa'r Llywydd oedd hwn ac nad oedd yn cynnwys y gwasanaeth yr oedd Aelodau'r Cynulliad yn ei ddarparu ar gyfer eu hetholwyr. Roedd ymgynghori wedi bod â staff Swyddfa'r Llywydd ac Aelodau'r Cynulliad.

Cytunodd yr Aelodau ar Atodiad 1 o'r ddogfen ynghylch blaenoriaethu dogfennau i'w cyfieithu. Roedd yr Aelodau'n hapus i gymeradwyo'r datganiad, yn amodol ar weld drafft terfynol o'r ddogfen.

Gofynnodd yr Aelodau am bapur i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf ar ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle byddai Aelodau'n bresennol.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Darparu Papurau Pwyllgor yn Gymraeg a Saesneg HC-01-03-17

Nododd y Pwyllgor y papur a oedd yn egluro bod nifer o wahanol ffactorau wedi effeithio ar y gwaith o ddarparu papurau pwllgor Cymraeg ac roedd yn disgrifio'r camau a oedd wedi'u cymryd i wella darparu papurau pwyllgor dwyieithog.

Roedd y Cadeirydd wedi hysbysu Panel y Cadeiryddion y byddai Pwyllgor y Ty yn ystyried argymhelliad i nodi'r dyddiadau yr oedd papurau pwyllgor yn cael eu derbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill. Byddai angen i Banel y Cadeiryddion fwrw ymlaen â'r mater hwn.

**Gweithredu: Marie Knox**

Etholiad 2003: Y Newyddion Diweddaraf am y Prosiect HC-01-03-18

Rhoddodd Marie Knox syniad cyffredinol o'r gwaith oedd ar y gweill. Roedd y prosiect yn gymhleth ac yn cynnwys nifer o dimau o wahanol rannau o Swyddfa'r Llywydd.

Cytunodd yr Aelodau ar y cynigion yn Atodiad A ar drefniadau llety a diogelwch.

Ystyriodd yr Aelodau Atodiad B ar drefniadau TGCh ar ôl yr etholiad. Gofynnodd yr Aelodau fod e-byst Aelodau na fydd yn dychwelyd yn cael eu hanfon ymlaen yn awtomatig i'r cyfeiriad cywir gan ddweud y dylai cyfeiriad e-bost yr Aelod ddal yn weithredol i dderbyn e-byst yn ystod y cyfnod dirwyn i ben. Cadarnhaodd Gwen Parry y byddai hyn yn digwydd.

Cytunwyd y gallai'r Aelodau ysgrifennu at y Swyddfa Ffioedd cyn yr etholiad yn nodi enwau'r staff y byddent yn parhau i'w cyflogi ar ôl dychwelyd i'r Cynulliad. Byddai'r Atodiad yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Yn amodol ar y diywgiad uchod, cafodd y papur ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i Marie Knox am fynychu'r cyfarfod.

<u>Cofrestru Grwpiau Trawsbleidiol HC-01-03-19</u>

Nododd Aelodau y trefniadau cofrestru ar gyfer grwpiau trawsbleidiol yn Nhy'r Cyffredin a Senedd yr Alban. Cytunodd Aelodau na ddylai cynllun y Cynulliad Cenedlaethol gael ei reoleiddio ormod. Byddai cynllun cofrestru syml yn cynnwys enw'r grwp, y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd ac unrhyw roddion allanol yn ddigon. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau wybod am grwpiau trawsbleidiol yn y Cynulliad a gofynnwyd bod y wybodaeth yn cael ei rhoi ar y wefan.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Pwyllgor Safonau yn cynnig proses gofrestru syml ar yr amod bod y grwpiau'n agored i bob plaid, a bod Aelod o ddwy blaid o leiaf yn rhan o'r grwp.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

**6.4 Gweinyddu, gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau**

<u>Cyhoeddi Manylion am Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau HC-01-03-20</u>

Nododd y Cadeirydd nad oedd y cyngor cyfreithiol yn derfynol. Cytunodd yr Aelodau i ailystyried yr eitem yn y cyfarfod nesaf.

**7 <u>Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad</u>**

Dosbarthwyd yr ateb i WAQ21409 i'r Aelodau ar 17  Rhagfyr 2002.

Hysbysir y Pwyllgor o'r dyddiad ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad i Bwyllgor y Ty pan fyddai slot wedi'i drefnu.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

**8 Unrhyw Fater Arall**

Ar ôl cais a wnaed gan i'r Cadeirydd, bu'r Aelodau'n ystyried a fyddai'n dderbyniol copïo ffotograffau sydd ar wefan y Cynulliad a'u defnyddio at ddibenion etholiadol. Cytunodd yr Aelodau na fyddai hyn yn dderbyniol. Byddai nodyn yn cael ei anfon at Aelodau'r Cynulliad i'w cynghori ar y mater.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn cais i ailenwi un o'r Ystafelloedd Cynadledda. Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau ystyried yr egwyddor o enwi ystafelloedd er mwyn trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 6 Mawrth 2003, 9.00am
Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty